Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Troseddu a Phlismona

Mehefin 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Troseddu a Phlismona[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Chwefror 2025. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref.

**2.** Yn ôl ei enw hir, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth yn y meysydd a ganlyn:

- ymddygiad gwrthgymdeithasol, arfau ymosodol, troseddau yn erbyn pobl (gan gynnwys troseddau rhywiol), troseddau eiddo, camfanteisio'n droseddol ar bobl, troseddwyr rhyw, stelcian a threfn gyhoeddus;
- pwerau'r heddlu, llu'r ffiniau a phersonau tebyg eraill;
- atafaelu;
- yr heddlu;
- terfysgaeth a diogelwch gwladol, a chytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â throseddu;
- atebolrwydd troseddol cyrff; ac
- at ddibenion cysylltiedig.[2]

**3.** Mae taflen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn rhoi'r wybodaeth gefndirol a ganlyn am y Bil:

> *"The Crime and Policing Bill supports the delivery of the government's Safer Streets Mission to halve knife crime and violence against women and girls in a decade and increase public confidence in policing and the wider criminal justice system.*
>
> *It will implement key manifesto commitments, such as introducing respect orders and a standalone offence of assaulting a retail worker. It will help to rebuild the public's confidence in policing, by equipping the police with more powers to respond quickly to criminal activity, whilst reforming the police accountability system.*

[1] Y Bil Troseddu a Phlismona, fel y'i cyflwynwyd
[2] Y Bil Troseddu a Phlismona, fel y'i cyflwynwyd

*Some of the measures in the bill build on parts of the Criminal Justice Bill introduced in the 2023/24 session of Parliament*[3] *that the government supported whilst in opposition."*[4]

**4.** Cwblhaodd y Bil y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Mai 2025.[5] Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nid oedd dyddiad ar gyfer y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gyhoeddi eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (darpariaeth berthnasol).

**6.** Ar 24 Mawrth 2025, rhoddodd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (yr Ysgrifennydd Cabinet), wybod i'r Llywydd y byddai memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei osod mewn cysylltiad â'r Bil y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos a bennir yn Rheol Sefydlog 29. Yn ei llythyr, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet:

*"Mae hwn yn ddarn cymhleth o ddeddfwriaeth sy'n ymestyn ar draws nifer o feysydd polisi a phortffolios Gweinidogol Llywodraeth Cymru … Cafodd fy swyddogion olwg gyntaf ar y Bil CP [Troseddu a Phlismona] drafft ar 21 Ionawr 2025, ac wedyn ar fersiwn wedi'i diweddaru … fel y'i cyflwynwyd ar 25 Chwefror 2025."*[6]

**7.** Ar 28 Mawrth 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet femorandwm cydsyniad deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd.[7]

---

[3] Mae gwybodaeth am drafodaethau'r Senedd hon, a'r Pwyllgor hwn, ynghylch y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd mewn cysylltiad â'r Bil Cyfiawnder Troseddol ar gael ar y dudalen hon: Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cyfiawnder Troseddol.
[4] Llywodraeth y DU, Y Bil Troseddu a Phlismona: taflen wybodaeth gyffredinol, 25 Chwefror 2025
[5] Y Bil Troseddu a Phlismona, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus
[6] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at y Llywydd, 24 Mawrth 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Troseddu a Phlismona, 28 Mawrth 2025

**8.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 6 Mehefin 2025.[8]

## Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**9.** Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, fel y’i nodir ym mharagraffau 7 i 29 o’r Memorandwm, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a’r Atodlenni a ganlyn yn y Bil fel y’i cyflwynwyd:

- cymal 1 – Gorchmynion Parch;
- cymal 2 ac Atodlen 1 – Gwaharddebau ieuenctid a gwaharddebau tai;
- cymal 5 ac Atodlen 2 – Cau mangreoedd gan ddarparwr tai cymdeithasol cofrestredig;
- cymal 6 ac Atodlen 3 – Adolygiadau o ymatebion i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- cymal 7 – Darparu gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r Ysgrifennydd Gwladol;
- cymal 14 – Ymosod ar weithiwr manwerthu;
- cymalau 74 a 75 – Hybu neu hwyluso hunan-niweidio difrifol;
- cymal 90 – Cofebau rhyfel;
- cymalau 127 i 129 – Cytundebau rhannu data mewn perthynas â gorfodi’r gyfraith ryngwladol (I-LEAP);
- cymal 132 – Rheoliadau; a
- chymal 133 – Rheoliadau a wneir gan Weinidogion yr Alban, un o adrannau Gogledd Iwerddon neu Weinidogion Cymru.[9]

**10.** O ran cymalau 127 i 129, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

> *“Mae cymal 127 yn rhoi pwerau i'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion*

[8] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddu a Phlismona, Ebrill 2025
[9] Y Memorandwm, paragraffau 10 i 33

*gorfodi'r gyfraith (I-LEAP). Yn ogystal â rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru (a ddiffinnir yng nghymal 128 fel awdurdod cenedlaethol priodol) ar gyfer darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, mae'r cymal yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol y gellid eu defnyddio i ddeddfu ar faterion datganoledig.*

*Mae'r cymal hwn yn darparu i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith.*

*Diffinnir yr awdurdod cenedlaethol priodol yng nghymal 128 fel yr Ysgrifennydd Gwladol, er bod Gweinidogion Cymru yn cael eu diffinio hefyd fel awdurdod cenedlaethol priodol yng nghymal 128(4) mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan gymal 127 nad yw ond yn cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os byddai wedi'i chynnwys mewn unrhyw Ddeddf gan y Senedd.*

*Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â chytundebau rhyngwladol i rannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith a ddiffinnir yng nghymal 127 (5) fel "the prevention, investigation, detection or prosecution of criminal offences or the execution of criminal penalties, including the safeguarding against, and the prevention of, threats to public security".*

*Mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol i greu neu addasu troseddau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl (yn ddarostyngedig i'r cyfyngiad ym mharagraff 4 yn Atodlen 7B) ac i wneud darpariaeth ynghylch cyfrifoldeb dros erlyn troseddau datganoledig megis ym meysydd troseddau amgylcheddol neu i fywyd gwyllt.*

*Mae paragraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn dargadw cysylltiadau rhyngwladol. Er hynny, mae paragraff 10(3)(a) o Atodlen 7A yn darparu nad yw parchu a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol yn fater sydd wedi'i gadw yn ôl. Wrth roi rhwymedigaeth ryngwladol ar waith sy'n ymwneud â phwnc nas cedwir yn ôl, byddai hyn o fewn cymhwysedd y Senedd.*

*Mae angen cydsyniad y Senedd i'r graddau y mae'r ddarpariaeth yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, gan gynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol a rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru."*[10]

## Safbwynt Llywodraeth y DU o ran yr angen am gydsyniad

**11.** Fel y nodir yn y Memorandwm, mae Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a ganlyn yn y Bil: cymalau 1, 5 a 7 ac Atodlen 2; cymal 14; cymalau 74 a 75; a chymalau 127 i 129.[11]

**12.** Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymalau hyn a'r Atodlen, ond mae'n cydnabod bod gwahaniaeth barn o ran yr angen am y cymalau eraill a restrir uchod, ym mharagraff 9.[12] Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn mynegi ei barn bod y cymalau hyn yn gwneud darpariaeth berthnasol ac felly bod angen cydsyniad ar eu cyfer.[13]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**13.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn mynegi ei barn yn y Memorandwm ei bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru:

*"Er bod llawer o'r ddarpariaeth yn rhoi sylw i faterion datganoledig, byddai llawer ohoni yn disgyn y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae darpariaeth gyfyngedig yn cael ei gwneud o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac rwyf o'r farn ei bod er budd gorau Cymru i ddarpariaeth o'r fath gael ei chynnwys yn y Bil hwn gan y DU.*

*Mae ymgysylltu pellach yn digwydd â Llywodraeth y DU ar y cymalau I-LEAP ac fe roddir diweddariad i'r Senedd maes o law."*[14]

**14.** Daw'r Ysgrifennydd Cabinet i'r casgliad a ganlyn:

---

[10] Y Memorandwm, paragraffau 25 i 31
[11] Y Memorandwm, paragraff 34
[12] Y Memorandwm, paragraff 36
[13] Y Memorandwm, paragraff 37
[14] Y Memorandwm, paragraffau 38 a 39

> *"… rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU ar y darpariaethau I-LEAP, a byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Senedd pan fyddaf yn gallu gwneud hynny. O ran yr holl ddarpariaethau eraill yn y LCM hwn, rwyf yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad."*[15]

### Goblygiadau ariannol

**15.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil "ar hyn o bryd."[16]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**16.** Gwnaethom drafod y Memorandwm ar 12 Mai 2025[17] a chytuno ar ein hadroddiad ar 2 Mehefin 2025[18].

## Ein barn ni

**17.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y'i nodir yn y Memorandwm.

**18.** Rydym hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**19.** Nodwn safbwynt yr Ysgrifennydd Cabinet ei bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru, ar y sail ei bod hynny "er budd gorau Cymru". Nid yw'n glir inni ar ba sail y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn gwneud y datganiad hwn.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro ymhellach pam ei bod o'r farn ei bod "er budd gorau Cymru" i gynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn y Bil hwn, a gyflwynir i Senedd y DU, ac nid mewn Bil a gaiff ei ystyried gan y Senedd.

---

[15] Y Memorandwm, paragraff 41
[16] Y Memorandwm, paragraff 40
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mai 2025
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 2 Mehefin 2025

**20.** Nodwn sylwadau'r Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas â chymalau 127 i 129 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymalau 146 i 148 yn y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd gan y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus). Mae'r cymalau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU wneud rheoliadau at ddiben gweithredu cytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth at ddibenion gorfodi'r gyfraith (darpariaethau I-LEAP). Bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan gymal 127 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn y Senedd; nid oedd y wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Memorandwm, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.3(iv).

**21.** Yn benodol, nodwn, er bod gofyniad i Weinidogion Llywodraeth y DU ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o'r fath, nad oes gofyniad i sicrhau cydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd.

**22.** Credwn mai dim ond i Weinidogion Cymru y dylid rhoi pwerau dirprwyedig mewn Biliau a gyflwynir i Senedd y DU y gellir eu defnyddio mewn meysydd datganoledig. Felly, yn ein barn ni, nid yw'n briodol y caiff Gweinidogion Llywodraeth y DU arfer y pwerau perthnasol yn y cymalau hyn, yn enwedig gan na fydd angen iddynt gael cydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd.

**23.** Nodwn fod y Memorandwm yn nodi bod ymgysylltu pellach yn digwydd â Llywodraeth y DU ar gymalau 127 i 129 ac y rhoddir diweddariad i'r Senedd maes o law. Nodwn hefyd nad yw'r Ysgrifennydd Cabinet, yn y cyfamser, yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad ar gyfer y cymalau hyn (fel y nodir yn y dyfyniad o'r Memorandwm ym mharagraff 14 uchod).

**24.** Credwn y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymalau 127 i 129, a'r canlyniad a ffefrir yn sgil ymgysylltiad pellach â Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â darpariaethau I-LEAP yng nghymalau 127 i 129 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd, a'r canlyniad a ffefrir yn sgil ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r cymalau hyn.

**25.** Mae hefyd yn aneglur i ni pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu dod i gytundeb â Llywodraeth y DU hyd yn hyn ynghylch cymalau 127 i 129 o'r Bil, yn enwedig o ystyried y bu ymgysylltiad "cyson a chadarnhaol" rhwng y Swyddfa Gartref a swyddogion Llywodraeth Cymru, yn ôl y Memorandwm, a bod y Swyddfa Gartref wedi rhannu fersiwn ddrafft o'r Bil gyda Llywodraeth Cymru. Nodwn ymhellach, er y diwygiwyd y Bil yng nghyfnod y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus, nad

yw’r cymalau hyn wedi eu newid eto (cymalau 146 i 148 yn fersiwn y Bil fel y'i diwygiwyd) wrth i'r Bil symud ymlaen i'r cyfnod Adrodd.[19]

**Argymhelliad 3.** O ystyried lefel yr ymgysylltiad â Llywodraeth y DU a ddisgrifir yn y Memorandwm, dylai’r Ysgrifennydd Cabinet roi rhagor o wybodaeth i esbonio pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu dod i gytundeb â Llywodraeth y DU hyd yn hyn o ran cymalau 127 i 129 o'r Bil.

[19] Y Bil Troseddu a Phlismona, Cyfnodau